# 2 Antur gyda'r Môr-ladron

Coeden Ddarllen Rhydychen

Roderick Hunt Alex Brychta



DRAKE



Roedd Cad yn edrych ar lyfr.
Llyfr am fôr-ladron oedd o.
'Dydw i ddim yn hoffi môr-ladron,' meddai hi.



Daeth Wilff a Wilma i chwarae.
Aethon nhw i ystafell Cad.






Edrychon nhw ar y tŷ bychan.
'Tŷ hud ydi o,' meddai Cad.
'Paid â bod yn wirion,' meddai Wilma.



Edrychon nhw ar yr allwedd.
'Allwedd hud ydi hi,' meddai Dids.
'Paid â bod yn wirion,' meddai Wilff.



Dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
Roedd yr hud yn gweithio.
'O help!' meddai Wilma.



Roedd yr hud yn gweithio.

Aeth y plant yn llai ac yn llai ac yn llai.



'O na!' meddai Wilff.

'O help!' meddai Wilma.

'Dydyn ni ddim yn hoffi hyn,' medden nhw.




Edrychon nhw ar y tŷ.
Roedd y ffenestri yn disgleirio.
Aeth Cad at y drws.





Rhoddodd yr allwedd yn y clo.
Agorodd hi'r drws.



Aeth y plant i mewn i'r tŷ.
'Tŷ hud ydi o,' medden nhw.




'Edrychwch ar y tywod,' meddai Cad.
'Edrychwch ar y môr,' meddai Dids.
'Dowch!' medden nhw.



Rhedon nhw at y môr.
Cododd Wilff gragen.
Cododd Dids gneuen goco.




Dringodd Cad goeden.
Aeth Wilma i'r môr.
'Hud a lledrith!' medden nhw.




Chwaraeon nhw ar y tywod.
Chwaraeon nhw yn y môr.
'Am antur!' meddai Cad.





Daeth môr-leidr yno.
Edrychodd ar y plant.
'Plant!' meddai'r môr-leidr.




‘Môr-ladron!’ meddai’r plant.
‘O help!’ medden nhw.
‘Dowch!’ meddai’r môr-ladron.





Roedd gan y môr-ladron gwch.
Aethon nhw at long y môr-ladron.
‘Dydw i ddim yn hoffi môr-ladron,’
meddai Cad.




‘Edrychwch ar y môr-leidr yna,’ meddai Cad.
‘Edrychwch ar y rhaff fawr yna,’ meddai Dids.
‘Mae arna i ofn,’ meddai Wilff.







‘Roedden ni eisiau parti,’ meddai’r môr-leidr.
‘Doedd neb eisiau dod.
Ddowch chi i’r parti?’




Aeth y plant i'r parti.

Roedd o'n barti da.

'Rydw i'n hoffi môr-ladron,' meddai Cad.



Roedd yr allwedd yn disgleirio.
Roedd yn amser mynd.



'Da bo chi,' meddai Dids.
'Diolch am y parti.'
'O na!' meddai'r môr-ladron.



'Am antur!' meddai Wilma.

'Roeddwn i'n hoffi'r môr-ladron,' meddai Cad.

Edrychodd Wilff ar yr het fach.



Argraffwyd yng Nghymru

# 2 Antur gyda'r Môr-ladron

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau Boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o ddim yn Deg
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1986
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1998
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-154-4

DRAKE

9 780861 741540

ISBN 0 86 174154 4

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 5

Llyfr 2